Busnes Cymdeithasol Cymru
Social Business Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

UnLtd

Obehi's

Sefydlodd Omo 'Obehi's', siop gymunedol Affricanaidd gyntaf Wrecsam, gan gynnig cynnyrch Affricanaidd ffres traddodiadol i helpu'r gymuned Affricanaidd sydd wedi symud i'r ardal yn ddiweddar i deimlo'n gartrefol.

Heriau

Cyrhaeddodd Omo Wrecsam gyda'i theulu yn 2011, gan ddianc rhag cam-drin domestig gyda chefnogaeth Cymorth i Ferched. Roedd Omo yn hiraethus ar y dechrau ac yn teimlo y byddai cael bwyd a diwylliant traddodiadol Affricanaidd wedi dod â chysur iddi, ond doedd dim cefnogaeth yn yr ardal leol. Mae nifer y bobl o Affrica sy'n symud i Gymru yn parhau i gynyddu. Yn benderfynol o atal y gymuned Affricanaidd sy'n gynyddol dyfu, rhag teimlo'r un fath, penderfynodd Omo wneud gwahaniaeth iddyn nhw.

Datrysiad

Yn 2019, sicrhaodd Omo gyllid i ddechrau dosbarthu bwyd Affricanaidd i deuluoedd na allent fforddio teithio i siopau oherwydd nad oedd gan y rhan fwyaf o'r gymuned Affricanaidd hawl i arian cyhoeddus. Roedd y siop agosaf dros awr i ffwrdd yn Lerpwl, ond gwnaeth Omo deithiau i gyn belled â Llundain hefyd. Wrth i nifer y teuluoedd sy'n elwa dyfu'n gyflym, sylweddolodd Omo bod angen datrysiad mwy cynaliadwy arni.

Agorodd Omo farchnad gymunedol Affricanaidd yn Wrecsam yn 2023, gan gynnig bwyd a llysiau ffres sy'n cael eu mewnforio bob wythnos o Affrica. Mae Omo hyd yn oed wedi cyflwyno cynhyrchion iechyd i'r siop oherwydd y galw.

Cyflawniadau

Bellach mae gan y gymuned Affricanaidd yn Wrecsam ymdeimlad o gymuned, ymdeimlad nad oedd yn bodoli cyn i'r siop agor. Mae nifer o swyddi hefyd wedi'u creu a gall pawb yn y gymuned wneud defnydd o'r siop i gael mynediad i ddiwylliant Affricanaidd.

"[UnLtd] yw'r bobl oedd yn credu ynof fi ac yn credu yn y weledigaeth ac fe wnaethon nhw roi arian i mi sefydlu'r busnes."

Cymorth Busnes Cymdeithasol Cymru

- Roedden nhw'n credu ym mreuddwydion Omo, gan ei helpu i ddod â nhw'n fyw.
- Fe wnaethon nhw helpu Omo i adennill ei hyder a'i chefnogi a'i mentora mewn meysydd yr oedd hi'n fwyaf ansicr ohonynt.
- Derbyniwyd ddyfarniad ariannol UnLtd i sefydlu'r busnes a thalu staff yn y siop.

- ***Dysgwch fwy am gymorth Busnes Cymdeithasol Cymru sydd ar gael i entrepreneuriaid cymdeithasol sy'n byw yng Nghymru yma.***
- ***Dysgwch fwy am Obehi's yma.***

Beth Nesaf?

Mae Omo yn gweld cyfle iddyn nhw ddod at ei gilydd fel cymuned hyd yn oed yn fwy, drwy neuadd neu ganolfan gymunedol. Mae Omo yn gobeithio sicrhau cyllid i ddod â'r syniad hwn yn fyw yn fuan.

Yr hyn a ddysgwyd ganddi

Mae breuddwydion yn gyraeddadwy pan fyddwch chi'n gweithio'n galed drostyn nhw. Cymerodd Omo gymaint o gyrsiau hyfforddi â phosibl i ennill y wybodaeth a'r sgiliau i ddod ag Obehi's yn fyw.